# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 22 Mehefin 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

## 8(v3)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cynnig i gynnig teitlau a chylch gwaith pwyllgorau

(5 munud)

**NDM6031** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.1:

1. Yn sefydlu Pwyllgor Cyllid i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 19; swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 18.10 ac 18.11; ac ystyried unrhyw fater arall yn ymwneud â Chronfa Gyfunol Cymru.

2. Yn sefydlu Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 18.2 and 18.3 ac ystyried unrhyw fater arall yn ymwneud â pha mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y cafodd adnoddau eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru.

## 4 Cynnig i ethol aelodau i bwyllgor

(5 munud)

**NDM6049** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol:

(i) Mike Hedges (Llafur Cymru), Eluned Morgan (Llafur Cymru), Jeremy Miles (Llafur Cymru), Simon Thomas (Plaid Cymru), Adam Price (Plaid Cymru), Nick Ramsay (Ceidwadwyr Cymreig) a Mark Reckless (Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig) yn aelodau o'r Pwyllgor Cyllid; a

(ii) Simon Thomas (Plaid Cymru) yn Gadeirydd dros dro y Pwyllgor Cyllid.

## 5 Dadl Plaid Cymru

(60 munud)

**NDM6029** Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r heriau i'r gwasanaeth iechyd o ran gofalu am boblogaeth hŷn.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) symud ymlaen gyda mwy o integreiddio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol; a

b) cynyddu nifer y meddygon teulu, gan ganolbwyntio ar recriwtio i gymunedau gwledig ac ardaloedd o amddifadedd.

**Cyflwynwyd y Gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1**– Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno asesiadau aros yn y cartref gwirfoddol i hybu byw'n annibynnol a chynllunio ar gyfer anghenion y dyfodol.

**Gwelliant 2** – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynllun newydd, cyn gynted â phosibl, ar gyfer mynediad at wasanaethau iechyd a seilwaith gwasanaeth iechyd ar gyfer cymunedau gwledig.

**Gwelliant 3** – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu rôl y Comisiynydd Pobl Hŷn.

**Gwelliant 4** – Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at gau ysbytai cymuned ledled Cymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi ac ailsefydlu ysbytai cymuned pan fydd hynny'n bosibl er mwyn dwyn gwasanaethau yn nes at gartrefi pobl.

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM6032** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod y rôl y mae llywodraeth leol yn ei chwarae o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus i gymunedau ledled Cymru.

2. Yn nodi â phryder yr ansicrwydd y mae diffyg eglurder ynghylch diwygio llywodraeth leol yn ei gael o ran darparu gwasanaethau effeithiol.

3. Yn cydnabod bod angen gwneud mwy i fynd i'r afael â difaterwch pleidleiswyr yng Nghymru, o gofio bod nifer y bobl a wnaeth fwrw pleidlais yn etholiadau llywodraeth leol Cymru yn 2012 yn isel, sef cyfartaledd o 38.9 y cant, a oedd bedwar y cant yn is na'r nifer a bleidleisiodd yn yr etholiadau lleol yn 2008.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu amserlen dros dro ar gyfer ei chynlluniau i ddiwygio awdurdodau lleol Cymru, ac i gymryd rhan mewn proses ymgynghori gadarn.

**Cyflwynwyd y Gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 –** Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Mewnosod ar ôl pwynt 3:

Yn nodi cynnwys adroddiad Sunderland ar drefniadau etholiadol llywodraeth leol yng Nghymru

'Adroddiad y Comisiwn ar Drefniadau Etholiadol Llywodraeth Leol yng Nghymru'

Gwelliant 2 - Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Mewnosod ar ôl pwynt 3:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu pleidlais sengl drosglwyddadwy ar gyfer etholiadau llywodraeth leol er mwyn sicrhau cynrychiolaeth deg i bob safbwynt wleidyddol.

## 7 Dadl Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig

(60 munud)

**NDM6030** Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn credu y byddai Cymru'n gryfach, yn ddiogelach ac yn fwy llewyrchus pe byddai'n gadael yr Undeb Ewropeaidd.

## 8 Cyfnod pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6033** Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)

Aros neu adael?

Pa ffactorau sydd wedi dylanwadu ar y farn gyhoeddus o ran ymgyrch refferendwm yr UE?

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 28 Mehefin 2016

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 15 Mehefin, 2016
# i'w hateb ar 22 Mehefin 2016

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

**1.** Sian Gwenllian (Arfon): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglŷn â rôl prosiectau ynni cymunedol fel rhan o strategaeth newid hinsawdd Llywodraeth Cymru? OAQ(5)0014(ERA)**W**

**2.** Darren Millar (Gorllewin Clwyd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gamau sy'n cael eu cymryd i leihau'r risg o lifogydd yng Ngorllewin Clwyd? OAQ(5)0005(ERA)

**3.** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â TB mewn gwartheg? OAQ(5)0002(ERA)**W**

**4.** Rhianon Passmore (Islwyn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y pwysigrwydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi ar sicrhau bod amgylchedd ffisegol Cymru yn agored i bawb? OAQ(5)0008(ERA)

**5.** Neil McEvoy (Canol De Cymru): Sut y bydd cynllun datblygu lleol Caerdydd yn gwella'r amgylchedd lleol? OAQ(5)0006(ERA)

**6.** Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am pa mor bwysig yw cymorthdaliadau cyhoeddus i ffermwyr Cymru? OAQ(5)0009(ERA)

**7.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn): A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ar y cynllun datblygu gwledig? OAQ(5)0012(ERA)**W**

**8.** Rhianon Passmore (Islwyn): A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa fesurau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cynnal lefelau ansawdd aer? OAQ(5)0010(ERA)

**9.** Vikki Howells (Cwm Cynon): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddulliau Llywodraeth Cymru o atal llifogydd yng Nghwm Cynon? OAQ(5)0007(ERA)

**10.** John Griffiths (Dwyrain Casnewydd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn amlinellu pa strategaeth y bydd Llywodraeth Cymru yn ei dilyn i gynyddu bioamrywiaeth yng Nghymru? OAQ(5)0011(ERA)

**11.** Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y digwyddiad pan lifodd biswail i lednant afon Taf yn Sir Gaerfyrddin ym mis Mai, gan ladd 230 o bysgod? OAQ(5)0016(ERA)

**12.** Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer materion gwledig yn y pumed Cynulliad? OAQ(5)0004(ERA)**R**

**13.** Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau llygredd traffig mewn ardaloedd gwledig? OAQ(5)0013(ERA)

**14.** Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): A wnaiff y Gweinidog gadarnhau nad oes rhwystrau statudol yn atal cyflwyno deddfwriaeth Gymreig i wahardd defnyddio maglau yng Nghymru? OAQ(5)0017(ERA)

**15.** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fwriadau'r Llywodraeth i ddwysáu ymdrechion i amddiffyn rhywogaethau sydd o dan fygythiad? OAQ(5)0015(ERA)**W**

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

**1.** Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr): Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o ran dyfodol mentrau adfywio cymunedol pe bai'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd? OAQ(5)0013(CC)

**2.** Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglŷn â deddfwriaeth yn ymwneud â chael gwared ar amddiffyniad Cosb Resymol? OAQ(5)0012(CC)**W**

**3.** Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru): Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael ynghylch effaith newidiadau i nawdd cymdeithasol ar gymunedau yng Nghymru? OAQ(5)0001(CC)

**4.** Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd): Sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu gweithio gyda'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn cymunedau yng Nghymru? OAQ(5)0016(CC)

**5.** Mark Isherwood (Gogledd Cymru): Sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â thlodi yng Nghymru? OAQ(5)0008(CC)

**6.** Vikki Howells (Cwm Cynon): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol y ddarpariaeth Dechrau'n Deg yng Nghwm Cynon? OAQ(5)0010(CC)

**7.** John Griffiths (Dwyrain Casnewydd): A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa strategaeth y bydd Llywodraeth Cymru yn ei dilyn i fynd i'r afael â thlodi yn ystod y pumed Cynulliad? OAQ(5)0015(CC)

**8.** Hefin David (Caerffili): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi yng Nghaerffili? OAQ(5)0018(CC)

**9.** Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer y portffolio cymunedau a phlant yn ystod y pumed Cynulliad? OAQ(5)0005(CC)

**10.** Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hynt y gwasanaethau mabwysiadu yng Nghymru? OAQ(5)0017(CC)

**11.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid Teuluoedd yn Gyntaf? OAQ(5)0007(CC)**W**

**12.** David Melding (Canol De Cymru): Pa flaenoriaeth y bydd y Gweinidog yn ei rhoi ar bolisïau i wella canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal? OAQ(5)0003(CC)

**13.** Vikki Howells (Cwm Cynon): Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod tai yng Nghymru yn diwallu anghenion pobl anabl? OAQ(5)0009(CC)

**14.** Caroline Jones (Gorllewin De Cymru) A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflwyno taliadau gwasanaeth ar gyfer tenantiaid tai cymdeithasol? OAQ(5)0011(CC)

**15.** Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau mabwysiadu yng Nghymru? OAQ(5)0004(CC)